



Archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol

**Papur yn amlinellu unrhyw oblygiadau o Argraffiad 10 PCC
newydd ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri.**

Gorffennaf 2018

Papur yn amlinellu unrhyw oblygiadau o Argraffiad 10 PCC newydd ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri.

1. Mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth i gynnwys Argraffiad 10 PCC newydd ac nid yw'n ystyried bod unrhyw oblygiadau ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig. Mae Argraffiad 10 newydd o PCC yn ymgorffori ysbryd y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac fe'i bwriedir iddo fod yn gyfraniad arwyddocaol tuag at wella lles fel y'i diffinnir gan y nodau lles. Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno tystiolaeth isod o sut mae'r CDLI Diwygiedig yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf LICD ac nad oes gan y diwygiadau i PCC oblygiadau o ran y CDLI diwygiedig.
2. Mae'r Awdurdod wedi ystyried nodau lles a'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Cynhyrchwyd Papur Cefndir 23 gan yr Awdurdod a oedd yn dangos bod yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar y gwahanol gamau yn natblygiad y CDLI Mabwysiadu a Diwygiedig yn cydymffurfio â gofynion Deddf LICD.
3. Mae'r Awdurdod wedi cynnal gweithdrefn adolygu ffurf fer. Yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar yr Adroddiad Adolygu (DC13) cytunwyd bod y strategaeth yn parhau'n gadarn, roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn parhau heb newid ond bod angen diweddarau peth o'r cynnwys a'r polisïau i adlewyrchu newidiadau yn lleol. Drwy ymgynghori, cytunodd rhanddeiliaid allweddol fod adolygiad ar ffurf fer yn ffordd briodol ymlaen. Trwy'r ymgynghoriadau dilynol ar y CDLI adneuo a'r newidiadau ffocws a hefyd argaeledd tystiolaeth gyfoes, mae'r holl bartïon â diddordeb wedi cael y cyfle i wneud sylwadau ar y cynllun sy'n dod i'r amlwg ac felly nid ydynt wedi bod dan anfantais oherwydd y math o adolygiad a gafodd ei gynnal.
4. Mae Papur Cefndir 23 (DC37) yn dangos bod yr ymgynghoriadau helaeth ac eang a gynhaliwyd ar y gwahanol gamau yn natblygiad y CDLI Mabwysiedig yn cydymffurfio â gofynion Deddf LICD. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r cynllun a fabwysiadwyd yn dal i fod yn gadarn ac mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth gefndir yn parhau i fod yn ddigyfnewid, mae'r ymgynghoriadau a wnaed ar y cynllun mabwysiedig yn cydymffurfio â Deddf LICD.
5. Yn ystod paratoi'r CDLI Adneuo, ystyriwyd amcanion y CDLI yn erbyn y 7 nod lles a amlinellwyd yn Neddf LICD i sicrhau nad oedd unrhyw wrthdaro a bod y CDLI yn cynorthwyo i gyflawni'r nodau lles.
6. Mae'r nodau fel y'u nodir yn y Ddeddf fel a ganlyn:
 - Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
 - Cymru ffyniannus
 - Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus
 - Cymru o Gymunedau Cydlynol
 - Cymru fwy cyfartal
 - Cymunedau iachach
 - Cymru Wydn / Gydawns

7. Mae'r amcanion a nodir yn y CDLI yn cefnogi'r nodau hyn fel yr amlinellir isod:

Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol

Sicrhau bod pob datblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n parchu safleoedd cadwraeth natur ddynodedig ac yn sicrhau bod yr amrywiaeth a'r amlder o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau a ddiogelir yn cael eu gwarchod a'u gwella.. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru gydnerth)**

Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu, gan gynnwys sicrhau gostyngiad yng ngollyngiadau nwyon tŷ gwydr, lleihau'r ynni a ddefnyddir a chynllunio datblygiadau derbyniol gyda golwg ar beryglon llifogydd.**(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru gydnerth; Cymru iachach).**

Annog, lle bo'n briodol, ddefnydd o adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau cynhyrchu pŵer o ynni adnewyddadwy ar raddfa fach er mwyn diwallu anghenion lleol heb beri niwed i 'Rinweddau Arbennig' yr ardal.**(Cymru gydnerth)**

Gwarchod a gwella adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol gan gynnwys ei geoamrywiaeth, ac ansawdd y dŵr, pridd a'r aer.. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru gydnerth)**

Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd a geoamrywiaeth y Parc Cenedlaethol. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru iachach)**

Hyrwyddo lleihau gwastraff a sicrhau darpariaeth o gyfleusterau ailgylchu a rheoli gwastraff integredig cynaliadwy yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru iachach)**

Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol

Deall, gwerthfawrogi, gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys olion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfoethogi treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.**(Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu)**

Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiadau'n cwrrd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.**(Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru gydnerth)**

Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Cefnogi datblygiadau priodol sy'n diwallu anghenion tai'r gymuned leol, gan roi ystyriaeth arbennig i dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol. **(Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus)**

Cefnogi a chynnal darpariaeth briodol o gyfleusterau a gwasanaethau allweddol cymunedol trwy'r ardal gyfan. **(Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus)**

Annog cyfleusterau hamdden yn y gymuned lle bo'r rheiny'n diwallu anghenion lleol, a phan nad ydynt yn mynd yn groes i 'Rinweddau Arbennig' y Parc. **Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus)**

Hyrwyddo mesurau i annog datblygiadau sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i ddiogelu cymunedau rhag datblygiadau sy'n anwybyddu'r effaith ar yr iaith Gymraeg. **(Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru o gymunedau cydlynus)**

Cefnogi'r Economi Wledig

Annog twf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi economi wledig sy'n cynnig cyfle am waith ac yn cynnal cymunedau sy'n ffynnu. **(Cymru lewyrchus; Cymru sy'n fwy cyfartal)**

Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n sicrhau'r buddion economaidd mwyaf yn lleol, yn lleihau'r effaith amgylcheddol a sy'n cydymdeimlo â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. **(Cymru iachach; Cymru lewyrchus)**

Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysedd

Annog datblygiadau newydd mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio â mynediad rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol ynghyd â chludiant cynaliadwy. **(Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)**

Cefnogi mentrau sydd wedi'u hanelu at annog dulliau cludiant cynaliadwy. **(Cymru iachach; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)**

- Mae'r PCC diwygiedig yn ymgorffori ysbryd y Ddeddf LICD i sicrhau bod y nodau'n cael eu diwallu trwy'r cysyniad o 'wneud lle'. Mae'n ymgorffori ysbryd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, trwy ein symud tuag at gymdeithas carbon isel, wydn, darparu swyddi diogel a swyddi sy'n talu'n dda, a chreu amgylcheddau sydd wedi eu cysylltu'n dda i bawb yng

Nghymru sy'n gwella ein bywydau a'n iechyd ac yn gwella ein lles. Bydd yn helpu i baratoi ar gyfer poblogaeth fwy amrywiol a phoblogaeth sy'n heneiddio, trwy gefnogi integreiddio gwasanaethau, ymgorffori cydlyniant cymdeithasol, a sicrhau bod tai newydd yn sicrhau cydraddoldeb, mynediad at yrr iaith Gymraeg, ac annog ymdeimlad o berthyn. Nod y PCC diwygiedig hefyd yw cynllunio ar gyfer 'cymunedau gwledig, sy'n cofleidio technoleg ac arloesedd, gan gynnwys gweithio'n ddoeth / 'smart', sydd hefyd yn rhagweld cynnydd i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran Cynllunio'.

9. Mae Argraffiad 10 o PCC yn ceisio sicrhau bod bywydau y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn gwella, a dyma weledigaeth a rennir gan y CDLI.
10. Mae Gweledigaeth y CDLI (isod) yn ceisio sicrhau bod tirlun pwysig y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu a'i wella wrth sicrhau bod gan gymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol well safon byw, trwy ddarparu economi amrywiol a ffyniannus gyda chymunedau sydd hefyd yn ffyniannus a chynhwysol.

Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirwedd esblygol a gwarchodedig, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol a rhyngwladol.

Cyflawnir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid mewn hinsawdd ac wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy weithio gyda'n gilydd.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid – bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr gyda'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol a lle i enaid gael llonydd.

11. Mae Argraffiad 10 o PCC yn ceisio hyrwyddo 'gwneud lle', - ystyrir bod hyn yn elfen allweddol o ran cyflawni dyheadau Deddf LICD. Mae'r Weledigaeth yn amlinellu y dylai 'gwneud lleoedd' yrru penderfyniadau sydd a wnelo creu'r cynllun a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mae 'gwneud lle' wrth wraidd y CDLI mabwysiedig a diwygiedig sy'n ceisio diogelu tirwedd y Parc Cenedlaethol wrth ddiwallu anghenion cymunedau lleol trwy ddatblygu cynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol.
12. Mae Argraffiad 10 o PCC yn ymgorffori'r nodau lles ac yn rhoi cyfeiriad clir trwy gyflwyno 5 Egwyddor Cynllunio Allweddol:
 - Datblygiad Cywir yn y Lle Cywir
 - Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach
 - Gwneud y defnydd Gorau o Adnoddau
 - Creu a Chynnal Cymunedau
 - Gwneud y gorau o Warchod yr Amgylchedd

13. Mae'r diwygiadau a nodir yn y CDLI Adnau yn cyd-fynd â'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol a nodir uchod.

Datblygiad Cywir yn y Lle Cywir

14. Mae'r diwygiadau i'r CDLI wedi mynd i'r afael â newidiadau sydd wedi digwydd yn lleol ers mabwysiadu'r cynllun sy'n bodoli. Mae'r CDLI yn ceisio darparu'r datblygiad cywir yn y lle iawn i ddiwallu anghenion cymunedau'r Parc Cenedlaethol trwy ddarparu tai fforddiadwy hygyrch, cefnogi datblygiad economaidd yn y mannau cywir a diogelu cyfleusterau cymunedol i annog cymunedau cydlynol a chynaliadwy. Mae'r dyraniadau newydd o fewn y CDLI diwygiedig wedi'u hasesu i sicrhau eu bod yn y lle iawn i gwrdd ag anghenion cymunedau'r Parc Cenedlaethol ac i gwrdd ag anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y Parc Cenedlaethol. Mae'r diwygiadau a gynigir drwy'r CDLI yn ceisio sicrhau bod cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn parhau i ffynnu a gall pobl leol aros yn eu cymunedau os ydynt yn dymuno.

Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach

15. Mae'r CDLI yn chwarae rhan hanfodol wrth greu cyfleoedd i bobl gael mynediad at swyddi, gwasanaethau, iechyd, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol. Mae'r Cynllun yn annog datblygiadau priodol mewn ardaloedd sy'n hygyrch trwy gyfrwng ffurfiau trafniadaeth cynaliadwy, gan alluogi pobl i fynd allan o'u ceir a cherdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus wrth fyw eu bywydau bob dydd. Nodwyd bod llwybrau hamdden wedi'u diogelu yn y Cynllun sy'n darparu manteision iechyd. Mae'r CDLI hefyd yn anelu at warchod a gwella amgylchedd naturiol Eryri a fydd yn cyfrannu tuag at well les meddyliol a chorfforol ei phoblogaeth.

Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau

16. Oherwydd dynodiad y Parciau Cenedlaethol fel tirwedd warchoddedig a chyfrifoldeb statudol a rôl yr Awdurdod;
- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal
 - Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'rhinweddau' arbennig yr ardal
17. Mae'r CDLI Mabwysiedig a'r CDLI adneuo diwygiedig yn sicrhau bod yr amgylchedd a thirwedd y Parc Cenedlaethol yn cael eu diogelu'n briodol yn unol â Phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.
18. Mae'r tir datblygu sydd ar gael o fewn y Parc Cenedlaethol yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol ac ystyriaethau tirwedd. Mae'r Awdurdod wedi sicrhau, trwy baratoi diwygiadau i'r CDLI bod y tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth er mwyn darparu ar gyfer anghenion y gymuned (darperir tystiolaeth bellach yn y Papur Cefndir 13 Astudiaeth Capasiti / Galluedd Aneddiadau (DC28) a Phapur Cefndir 21 Parthau Dylanwad (DC35)). Mae'r CDLI yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol drwy'r CDLI diwygiedig. Gall prosiectau cynhyrchu ynni lleol priodol gael y budd ychwanegol o wneud cyfraniad at wella ansawdd bywyd mewn cymunedau llai

Creu a Chynnal Cymunedau.

19. Fel yr amlinellir uchod mae gweledigaeth ac amcanion y CDLI yn ceisio sicrhau bod anghenion cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu diwallu. Mae'r CDLI yn ceisio sicrhau cymunedau cynaliadwy, ffyniannus a chynhwysol trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion y Parc Cenedlaethol dros gyfnod y Cynllun. Mae'r CDLI yn ceisio diwallu anghenion y cymunedau trwy ddarparu cyfleoedd tai a chyflogaeth, drwyddo draw yn y Parc Cenedlaethol, sy'n helpu i sicrhau cymunedau cynaliadwy a chydlynol a chadw pobl yn y cymunedau y maent am fyw ynddynt. Mae sicrhau bod pobl leol yn eu cymunedau sy'n ffynnu yn cynnig y budd ychwanegol o gefnogi'r Gymraeg.

Gwneud y gorau o warchod yr amgylchedd a chyfyngu ar yr effaith amgylcheddol.

20. Fel yr amlinellir uchod, pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal. Amcanion y CDLI yw sicrhau bod datblygiad yn cael ei wneud mewn modd sy'n parchu'r safleoedd cadwraeth natur dynodedig ac yn sicrhau bod cynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau gwarchodedig yn cael eu gwarchod a'u gwella gan sicrhau nad yw'r adnoddau amgylcheddol gwerthfawr hyn yn cael eu niweidio yn barhaol.
21. Yn ogystal â gwneud lleoedd, mae Argraffiad 10 o PCC yn amlinellu 3 thema arall sy'n cyfrannu tuag at wneud lleoedd ac at y nodau lles. Mae'r CDLI yn mynd i'r afael â'r themâu hyn fel yr amlinellir isod.

Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus

22. Mae'r polisïau o fewn y CDLI diwygiedig yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a datblygu economaidd priodol o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n helpu i sicrhau lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol y trigolion. Mae'r CDLI yn darparu polisi galluogi ar gyfer dyraniad Parth Menter Eryri a ddylai fanteisio ar y pwyntiau gwerthu unigryw o fod wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol ac y dylai datblygiad newydd fod yn arloesol a darparu atebion dylunio cyflenwol sy'n addas ar gyfer lleoliad y Parc Cenedlaethol. Cefnogir yr economi wledig hefyd a lle bo hynny'n briodol, cefnogir datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant newydd drwy'r CDLI diwygiedig. Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy sy'n cynorthwyo i leihau'r defnydd o ffynonellau anadnewyddadwy hefyd yn cael eu cefnogi. Mae'r CDLI hefyd yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi'r Parc Cenedlaethol a bod polisïau o fewn y CDLI yn cefnogi datblygiadau twristiaeth priodol o fewn cyd-destun y Parc Cenedlaethol.

Lleoedd Bywiog a Chymdeithasol

23. Mae'r CDLI Diwygiedig yn ceisio darparu'r cyfleoedd yn y Parc Cenedlaethol trwy ddarparu tai i ddiwallu anghenion y cymunedau a hefyd yn darparu mynediad at a

diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae'r ddarpariaeth manwerthu o fewn prif ganolfannau'r Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu i helpu i ddarparu cymunedau cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r CDLI yn cefnogi cyfleusterau hamdden awyr agored a all gefnogi pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw. Fel yr amlinellir mewn mannau eraill yn y ddogfen hon, mae'r CDLI yn cefnogi datblygu cymunedau cydlynol sy'n helpu'r Parc Cenedlaethol i ffynnu. Fel y crybwyllwyd eisoes, nodwyd bod llwybrau hamdden wedi'u diogelu yn y Cynllun sy'n darparu manteision iechyd. Mae'r CDLI hefyd yn anelu at warchod a gwella amgylchedd naturiol Eryri a fydd yn cyfrannu tuag at well lles meddyliol a chorfforol ei phoblogaeth.

Lleoedd Naturiol a Nodedig

24. Fel yr amlinellir uchod, pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yw gwarchod a gwella tirwedd y Parc Cenedlaethol, mae'r polisiâu yn y CDLI diwygiedig yn diogelu'r dirwedd hon, yr amgylchedd hanesyddol, bioamrywiaeth ac ardaloedd arfordirol y Parc Cenedlaethol. Mae dyraniadau newydd yn y CDLI wedi'u hasesu i sicrhau na chaiff safleoedd eu dyrannu mewn ardaloedd mewn perygl o lifogydd.
25. Yr ail bwrpas yw hyrwyddo'r cyfleoedd i ddeall a mwynhau'r 'rhinweddau arbennig'. Mae'r pwrpasau hyn yn cael eu hadlewyrchu ym mholisiâu'r CDLI diwygiedig ac yn annog preswylwyr ac ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol i fwynhau ffordd o fyw iachach trwy fwynhau'r dirwedd a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Parc Cenedlaethol.
26. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu unigrywedd lleol trwy bwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol. Ystyrir bod y gweledigaethau a'r polisiâu yn unigryw yn lleol ac yn eu lle yn benodol i ystyried materion a heriau penodol sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol.

Diwygiadau Polisi Penodol gydag Argraffiad PCC 10

27. Yn ychwanegol at yr elfennau mwy strategol uchod o argraffiad PCC 10, mae'r Awdurdod yn ystyried bod rhai newidiadau mwy manwl y mae'r Awdurdod yn ystyried bod angen eu hystyried yn y CDLI fel a ganlyn:
28. **Cynnwys taflywybr yn y CDLI** – Mae'r Awdurdod wedi paratoi taflywybr diwygiedig sydd wedi'i gynnwys fel atodiad i Sesiwn Gwrandawriad 1. Mae'r taflywybr yn dangos bod gan yr Awdurdod gyflenwad tai 5 mlynedd gyda digon o hyblygrwydd.
29. **Lwfans hyblygrwydd i'w gynnwys mewn polisi** – Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys lwfans hyblygrwydd o 5% i hwyluso darparu tai pe na bai safleoedd yn cael eu cyflwyno fel y rhagwelir. Bydd y ffigwr tai cyffredinol yn cael ei gynnwys ym Mholisi Strategol G, fel y cynigir trwy Ddatganiad Gwrandawriad 1.
30. **Bod hyfywedd yn cael ei ystyried yn ystod cyfnodau paratoi'r CDLI** – Mae'r Awdurdod wedi cynnal astudiaeth hyfywedd sydd wedi darparu man cychwyn ar gyfer drafftio Polisi Strategol G diwygiedig fel yr amlinellir yn y Cynllun Adnewo. Cynhaliwyd yr astudiaeth Hyfywedd ar ddechrau'r adolygiad o'r cynllun ac fe gafodd ei adolygu yn dilyn cyflwyniad i gefnogi'r ymgynghoriad Newidiadau Ffocws.

31. **Mae Argraffiad PCC 10 yn amlinellu'r anghenion ar gyfer ystod o feintiau safle ar gyfer datblygu tai** – ystyrir, o fewn cyd-destun y Parc Cenedlaethol bod yr Awdurdod wedi darparu ystod o feintiau safle a fydd yn sicrhau bod tai newydd yn cael eu darparu sy'n briodol ar gyfer y lefel twf a gynigir drwy'r CDLI ar gyfer aneddiadau'r Parc Cenedlaethol.
32. **Pwyslais cryfach ar gyfer aildefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen** – Lle bo modd, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo'r defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen neu aildefnyddio adeiladau presennol. Mae tir datblygu yn brin o fewn ardal y Parc Cenedlaethol ac mae llawer o safleoedd yn anaddas oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol.
33. Mae'r diwygiadau arfaethedig i Bolisi Strategol H a Pholisïau Datblygu 19 a 27 yn diwallu gofynion argraffiad PCC 10 mewn perthynas â chefnogi'r Economi Wledig. Mae PCC yn amlinellu pwysigrwydd cefnogi'r Economi Wledig trwy gefnogi datblygiadau newydd neu ymestyn busnesau presennol lle bo'n briodol. Ni ystyrir bod y diwygiadau a gynigir yn gwrthdaro â'r cynnig hwn.

Casgliad

34. I gloi, mae'r Awdurdod yn hyderus bod dogfen y CDLI Adneuo ynghyd â'r newidiadau a gynigir trwy'r newidiadau a datganiadau'r gwrandawiadau yn canolbwyntio ar y gofynion a nodir yn Neddf LICD (2015) ac nid oes unrhyw oblygiadau wedi codi o ganlyniad i argraffiad newydd PCC 10. Mae'r Mae'r CDLI wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau'r Parc Cenedlaethol i fod yn lleoedd cydlynol cynaliadwy, lle gall pobl fyw a ffynnu a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.